

Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet

Office of the First Minister and Cabinet Office



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: ATISN 11399
Dyddiad: 22 Medi 2017

Annwyl ,

Cwyn mewn perthynas â Chais am Wybodaeth - cyfeirnod ATISN 11399

Diolch am eich e-bost a dderbyniwyd ar 24/09/2017. Rwyf wedi ystyried eich cwyn yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yng Nghanllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud Ceisiadau am Wybodaeth sydd ar gael i'w anfon drwy'r post ar gais neu dros y we.

Rwyf bellach wedi cwblhau adolygiad mewnol i'r ymateb a gawsoch i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth gwreiddiol. Roedd yr ymateb gan Jamie Jenkins, dyddiedig 15 Awst 2017, yn nodi bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r siartiau sefydliadol wedi cael eu cyhoeddi ar wefan gyfredol Llywodraeth Cymru ac yn yr archif. Gofynnodd i adolygiad gael ei gynnal, gan mai dim ond manylion am strwythurau sefydliadol lefel uchel oedd ar y gwefannau hyn; gofynnodd i wybodaeth gael ei rhyddhau sy'n ymwneud â strwythurau sefydliadol ar lefel weithredol gan gynnwys teitlau swyddi unigol o fewn adrannau/canghennau.

Fel rhan o'm hadolygiad, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y safbwynt cywir wedi cael ei amlinellu i chi o ran y siartiau sefydliadol sydd ar gael; nid yw Llywodraeth Cymru yn dal unrhyw siartiau sefydliadol sy'n is na'r lefel a ddatgelwyd. Mae'r wybodaeth a fyddai'n cael ei defnyddio ar gyfer siartiau fel hyn ar gael, ond byddai'n cymryd llawer iawn o amser i gasglu'r wybodaeth a'i gosod ar y fformat hwnnw. Byddai'r dasg hon yn costio mwy na'r terfyn priodol a nodir yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ystyried eich cais, ac oherwydd hyn, mae'r rheoliadau yn caniatáu imi wrthod ymdrin â'r mater. Y terfyn priodol a bennwyd ar gyfer llywodraeth ganolog yw £600.

Wrth gyfrifo p'un a yw eich cais yn fwy na'r terfyn priodol neu beidio, mae gen i hawl ystyried yr amser y mae'n debygol o'i gymryd i ganfod a ydym yn dal yr wybodaeth honno, cael gafael ar yr wybodaeth, adfer yr wybodaeth a'i thynnu allan. Pe



BUDDSODDWRYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays
Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

CentralDepartments-FOI/DP@gov.wales
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk

Swyddfa'r Prif Weinidog a Swyddfa'r Cabinet

Office of the First Minister and Cabinet Office

amcangyfrifir y byddai'n cymryd mwy na 24 awr waith i gwblhau'r tasgau hyn, byddai hynny'n rhagori ar y terfyn hwn.

Ddiwedd mis Mawrth 2017 roedd 5,397 o swyddi llawn ar ein system wybodaeth Adnoddau Dynol (HRIS). Er mwyn datblygu siart sefydliadol ar gyfer y sefydliad cyfan, byddai angen edrych ar bob swydd yn fanwl, gan gynnwys y berthynas â swyddi eraill mewn manau eraill; mae rhai swyddi wedi'u lleoli mewn un cangen ond mae ganddynt strwythur adrodd sy'n cynnwys unigolyn neu bobl mewn cangen arall. Er mwyn edrych ar bob cofnod yn y ffordd hon, rwy'n amcangyfrif y byddai'n cymryd dwy funud, sy'n golygu y byddai'n cymryd 10,794 o funudau, neu 180 o oriau i edrych ar yr holl gofnodion. Byddai creu siart sefydliadol i ddangos y strwythurau cymhleth hyn yn cymryd llawer o oriau ar ben y gwaith dadansoddi hwn. Felly, ar gyfer un flwyddyn yn unig, byddai'r dasg hon yn cymryd llawer mwy o amser na 180 o oriau, sydd yn amlwg llawer yn fwy na'r terfyn priodol o 24 awr i ateb ceisiadau. Ar y sail hwn, nid wyf yn gallu darparu'r wybodaeth ar y fformat rydych chi wedi gofyn amdano. Ond rwyf wedi darparu taenlen Excel sy'n rhoi manylion bob swydd yn y sefydliad ar gyfer pob un o'r 10 mlynedd diwethaf, ac mae croeso i chi geisio llunio eich siartiau sefydliadol eich hunain ar sail y data amrwd hyn.

Rwyf wedi ystyried eich cwyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellwyd yng [Nghanllaw ymarferol Llywodraeth Cymru ar wneud ceisiadau am wybodaeth](#) sydd ar gael drwy'r post ar gais neu ar y rhyngwyd.

Os ydych yn parhau'n anfodlon â'r ateb hwn, mae gennych hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF.

Yn gywir

Paul McDonagh



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays
Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

CentralDepartments-FOI/DP@gov.wales
Gwefan • website: www.cymru.gov.uk